## Fideo 1 Riz de Camargue

Cwblhewch y gweithgareddau paratoi canlynol yna gwyliwch y fideo a chwblhewch y cwis rhyngweithiol – MWYNHEWCH!

1. **Mae'r geiriau canlynol yn ymddangos yn y clip fideo, chwiliwch eu hystyr mewn geiriadur: *cofiwch fod gan rai geiriau <u>mwy nag 1 ystyr</u> felly cofnodwch y rhai sydd fwyaf addas i thema'r fideo:**

- Un canard
- Des canetons
- Une rizière
- Le volatile
- La Liberté
- Les mauvaises herbes
- Un riziculteur
- Se faire conseiller
- Un éleveur
- Une race
- Faillir à
- Une parcelle
- S'appauvrir
- Désherber
- Les dégâts
- L'épi
- Rentable
- Les engrais

2. **Mae'r 3 brawddeg Ffrangeg canlynol yn defnyddio rhai o'r geiriau o'r dasg gyntaf. Cyfieithwch nhw i'r Gymraeg:**

- Ce n'est pas bon pour l'environnement d'utiliser des engrais.
- L'usage d'engrais est nocif pour quelques animaux.
- Les canards causent des dégâts pendant leur travail.

3. **Mae'r 3 brawddeg Gymraeg ganlynol yn defnyddio rhai o'r geiriau o'r dasg gyntaf. Cyfieithwch y brawddegau i'r Ffrangeg.**

- Mae gwrteithiau yn wael i'r amgylchfyd.
- Mae yna nifer o fridiau (breeds) gwahanol o hwyaid.
- Mae'n bwysig i leihau nifer y chwyn (weeds) er mwyn sicrhau bod y fferm yn gwneud elw (profitable)

## Grammaire – point utile!

Mae gramadeg Ffrangeg yn nodi fod gan ferfenwau rhagenwol (pronominal verbs) **ragenw ychwanegol**. Mae'r rhagenwau ychwanegol yma'n atblygol (reflexive), sydd yn gyffredinol yn golygu eu bod yn adlewyrchu goddrych (subject) y ferf. Byddai'r Gymraeg yn cyfateb 'i fy hun' a'r Saesneg 'to….oneself'. Mae yna 3 categori gwahanol:

**Berfau Atblygol:** Mae'r rhain yn mynegi rhywbeth mae goddrych y ferf yn gwneud i'w hunain e.e. Je **me** regarde (Rydw i'n edrych ar **fy hun** / I look at **myself**).

**Berf Ddwyochrog:** Mae'r rhain yn dangos bod dau oddrych yn gwneud yr un peth i'w gilydd e.e. Ils **se** parlent (Mae nhw'n siarad **a'i gilydd** /They talk **to each other**).

**Berfau Rhagenwol Idiomatig:** Mae'r rhagenw ychwanegol yn dangos nad yw'r ferf yn cael ei wneud i'w hun nac i'w gilydd e.e. tu **te** souviens (rwyt ti'n cofio/you remember).

Mae'n bosibl adnabod berf ragenwol wrth edrych ar y berfenw ei hun; mae **se** wastad yn ymddangos yn syth cyn y berfenw e.e. **se préparer** (i baratoi fy

hun/to get oneself ready). Heblaw am y rhagenw ychwanegol mae'r berfau yma'n cael eu ffurfio fel unrhyw ferfau eraill.

Yr unig wahaniaeth yw bod angen cofio ffurfio'r rhagenw ychwanegol.

Fedrwch chi enwi unrhyw ferfau rhagenwol?